**CYLLIDEB REFENIW 2024/25 - CYFRIFON TERFYNOL**

| **Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant** | Cyllideb 2024/25 | Sefyllfa 2024/25 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2024/25** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2024/25** | Amcan Gor / (Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2024/25 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Gwasanaethau Oedolion** | | | | | | |
| Pobl Hŷn | | | | | | |
| Preswyl a Nyrsio - Cartrefi | 23,227 | 22,477 | (750) | | (750) | (1,220) |
| Gofal Cartref | 10,188 | 12,313 | 2,125 | | 2,125 | 1,622 |
| Anabledd Corff | 3,471 | 2,257 | (1,214) | | (1,214) | (879) |
| Eraill | 4,810 | 4,785 | (25) | | (25) | 1,372 |
| | 41,696 | 41,832 | 136 | 0 | 136 | 895 |
| Anabledd Dysgu | 29,958 | 29,866 | (92) | | (92) | 155 |
| Iechyd Meddwl | 5,193 | 4,975 | (218) | | (218) | (37) |
| Rheolaeth yr Adran | 576 | 462 | (114) | | (114) | (81) |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Oedolion** | **77,423** | **77,135** | **(288)** | **0** | **(288)** | **932** |
| **Gwasanaethau Darparu (dangos cyllideb net)** | | | | | | |
| Gofal Preswyl | (469) | 45 | 514 | | 514 | 389 |
| Gofal Dydd | (50) | (60) | (10) | | (10) | (6) |
| Gofal Cartref | 132 | 746 | 614 | | 614 | 1,535 |
| Eraill | (14) | 13 | 27 | | 27 | 44 |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Darparu** | **(401)** | **744** | **1,145** | **0** | **1,145** | **1,962** |
| Addasiad Cau Cyfrifon 2024/25 | | | | **(757)** | **(757)** | **0** |
| **Cyfanswm Oedolion, Iechyd a Llesiant** | **77,022** | **77,879** | **857** | **(757)** | **100** | **2,894** |

## Oedolion, Iechyd a Llesiant

Yn unol â phenderfyniad y Cabinet Adolygiad Tachwedd, gweithredwyd ar nifer o drosglwyddiadau cyllideb sylweddol o fewn gwasanaethau'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant i adlewyrchu y pwysau presennol, gan gynnwys yn y maes Anabledd Dysgu, Pobl hŷn, Anabledd Corff ac Iechyd Meddwl. Ymhellach i hyn, newidiwyd sail ad-dalu Gofal Cartref Mewnol ar y Gwasanaeth Pobl Hŷn ers yr adolygiad diwethaf.

**Pobl Hŷn** - derbyniad incwm, cyfraniadau a grantiau sylweddol erbyn diwedd y flwyddyn i'r maes Pobl Hŷn wedi arwain at leihad yn y gorwariant i £136k. Ym mhreswyl a nyrsio, costau ffioedd uwch gan ddarparwyr preifat yn parhau, ond defnydd o system genedlaethol annibynnol ffioedd gofal wedi bod yn effeithiol yn rhoi sicrwydd i'r Cyngor o werth am arian. Y trefniadau yn ymwneud â thaliadau gohiriedig dyledus ar gyfer preswylwyr hefyd yn fwy effeithiol. Yn gofal cartref, cynnydd pellach yn y pwysau ar y gyllideb ynghyd â lleihad yn yr incwm ac felly wedi arwain at orwariant o £2.1 miliwn. Yn y maes anabledd corff, y tueddiad o lai o alw am ofal cartref yn parhau. Yn 'Eraill', derbyniad grant ac incwm ychwanegol un-tro yn cynorthwyo'r sefyllfa ariannol.

**Anabledd Dysgu** - bu i'r gwasanaeth dderbyn dyraniad cyllideb ychwanegol o £1.68 miliwn ar gyfer y maes yn 2024/25. Adroddir ar danwariant o (£92k) ar ddiwedd y flwyddyn, er fod y pwysau yn parhau ar lety cefnogol a bod swyddi gweithwyr maes uwchlaw'r sefydliad, mae'r gwasanaethau dydd a phreswyl a nyrsio yn tanwario. Grantiau ac arian un-tro wedi ei dderbyn erbyn diwedd y flwyddyn wedi cynorthwyo'r sefyllfa ariannol.

**Iechyd Meddwl** - derbyniwyd incwm gan Iechyd ar ddiwedd y flwyddyn ac mae gweithwyr maes a chynlluniau cefnogol yn tanwario ond fod pwysau ar yr elfen llety cefnogol.

**Rheolaeth yr Adran** - tanwariant ar y gyllideb cyfreithiol ac hefyd ar gyflogau a theithio.

**Gwasanaethau Darparu** - gorwariant staff yng ngofal preswyl yn cynnwys £0.5 miliwn o orwariant ar ddefnydd o staff asiantaeth. Er bod cyllideb ychwanegol o £0.5 miliwn wedi ei fuddsoddi yn barhaol yng ngofal cartref yn 2024/25, costau staffio uwch, gyda lefelau salwch a chyfraddau oriau di-gyswllt uchel yn parhau ac yn gyfrifol am £614k o'r gorwariant. Y ddarpariaeth gofal dydd wedi ei leihau dros y blynyddoedd diwethaf, ond costau rhedeg gweddilliol ar gyfer rhai o'r adeiladau.

**Arbedion** - o ran sefyllfa gwireddu arbedion yr adran, mae gwerth £1.3 miliwn o'r £1.8 miliwn perthnasol bellach wedi eu gwireddu.

O ganlyniad i'r gorwariant eithriadol gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn 2023/24, bu i'r Prif Weithredwr gomisiynu gwaith i egluro manylder cymhleth yn y darlun yng ngofal Oedolion, er mwyn cael gwell dealltwriaeth o’r materion a rhaglen glir i ymateb. Mae'r gwaith yn derbyn sylw ac yn cael ei arwain gan y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol, gyda bwriad i adrodd ar y canfyddiadau yn fuan.

**Argymhellir** fod yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn derbyn cymorth ariannol un-tro o £757k i gyfyngu lefel y gorwariant sydd i'w gario ymlaen gan yr Adran i £100k, i'w cynorthwyo i symud ymlaen i wynebu her 2025/26.

**CYLLIDEB REFENIW 2024/25 - CYFRIFON TERFYNOL**

| **Adran Plant a Theuluoedd** | Cyllideb 2024/25 | Sefyllfa 2024/25 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2024/25** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2024/25** | Amcan Gor / (Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2024/25 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Rheolaeth Gwasanaeth | 673 | 670 | (3) | | (3) | (12) |
| Gweithredol | 2,592 | 3,025 | 433 | | 433 | 431 |
| Lleoliadau | | | | | | |
| Lleoliadau All-Sirol | 5,832 | 7,939 | 2,107 | | 2,107 | 2,007 |
| Cartrefi Grwpiau Bychan | 0 | 28 | 28 | | 28 | 0 |
| Maethu Drwy Asiant | 1,917 | 1,490 | (427) | | (427) | (388) |
| Maethu Mewnol | 3,057 | 2,856 | (201) | | (201) | (241) |
| Gwasanaethau Cefnogol ac Eraill | 2,053 | 2,480 | 427 | | 427 | 411 |
| | 12,859 | 14,793 | 1,934 | 0 | 1,934 | 1,789 |
| Ôl-16 | 1,702 | 1,975 | 273 | | 273 | 65 |
| Gwasanaeth Derwen | 2,607 | 3,842 | 1,235 | | 1,235 | 1,378 |
| Cyfiawnder Ieuenctid | 270 | 229 | (41) | | (41) | (40) |
| Blynyddoedd Cynnar | 155 | 36 | (119) | | (119) | (76) |
| Uned Datblygu'r Gweithlu | 190 | 190 | 0 | | 0 | 0 |
| Eraill | 2,244 | 2,337 | 93 | | 93 | 148 |
| Addasiad Cau Cyfrifon 2024/25 | | | 0 | (3,705) | (3,705) | 0 |
| **Cyfanswm Plant a Theuluoedd** | **23,292** | **27,097** | **3,805** | **(3,705)** | **100** | **3,683** |

## Plant a Theuluoedd

**Gweithredol** - y tueddiad gorwariant yn parhau o ganlyniad i bwysau sylweddol ar gefnogaeth cynlluniau cefnogol ynghyd â staffio uwchlaw'r gyllideb gweithwyr maes. Mae bid am adnodd ychwanegol wedi ei ganiatáu i'r maes ar gyfer 2025/26.

**Lleoliadau** - gwelwyd cynnydd pellach yn y nifer cyfartalog lleoliadau all-sirol unwaith eto eleni i 34.3 (32.5 yn 2023/24, 25.7 ar gyfer 2022/23), ac felly cynnydd yn y gorwariant ers sefyllfa 2023/24 i £2.1 miliwn. Er mai £248k yw cost cyfartalog y lleoliadau, mae chwe lleoliad eithriadol eleni, sydd yn costio rhwng £487k a £861k yr un. Gwelwyd cynnydd yn y costau oherwydd cymhlethdodau pecynnau a defnydd cynyddol ddiweddar o leoliadau heb eu cofrestru, sydd fwy costus.

Niferoedd cyfartalog Maethu drwy Asiant a Maethu Mewnol ychydig yn is na niferoedd 2023/24 a gan fod nifer o geiswyr lloches heb rieni neu warcheidwaid yn derbyn gwasanaeth, derbyniad incwm ar eu cyfer gan y Swyddfa Gartref yn arwain at danwariant. Yn y gwasanaeth cefnogol ac eraill pwysau cynyddol ar gyllideb y tîm lleoliadau, gweithwyr cefnogol ac ar y gwasanaeth mabwysiadu gogledd Cymru.

**Cartrefi Grwpiau Bychan** - wrthi'n cael eu sefydlu yng Ngwynedd, sef darpariaeth fewnol fydd yn golygu y bydd modd lleoli plant yn fewnol yn hytrach nac efo darparwyr allanol all-sirol, fydd yn ei dro yn lleihau'r gorwariant presennol ar leoliadau. Bu i'r Cyngor dderbyn grant i'w sefydlu ond mae'r costau wedi bod uwchlaw'r grant.

**Ôl-16** - pwysau ychwanegol ar y gwasanaeth gan gynnwys ar yr elfen ceiswyr lloches dros 18 oed, gan nad yw'r cyfraniad gan y Swyddfa Gartref yn ddigonol i gyfarch y costau. Staffio uwchlaw'r gyllideb gweithwyr cymdeithasol hefyd yn cyfrannu at y gorwariant.

**Derwen -** y tueddiad gorwariant yn parhau, gyda chostau gweithwyr cynlluniau cefnogol a chefnogaeth arbenigol yn gorwario £1 miliwn. Bu newid yn y pwyslais o ran sut mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu, gyda mwy o bwysau ar daliadau uniongyrchol sydd yn gyfrifol am £178k o'r gorwariant. Defnydd cynyddol o leoliadau tymor hir eu natur yn ystod y flwyddyn yn yr Uned Egwyl Fer ac felly yn arwain at gynnydd yn y pwysau ar y gyllideb.

**Cyfiawnder Ieuenctid** - trosiant staff a lleihad yng nghyfraniad y Cyngor tuag at gostau rhedeg y bartneriaeth eleni.

**Blynyddoedd Cynnar -** grantiau cynyddol ar gael i gyllido gwariant craidd wedi arwain at dwf yn y tanwariant.

**Eraill** - nifer o ffactorau gan gynnwys gorwariant ar ffioedd gwasanaethau arbenigol a chostau staff ond sydd yn cael ei leihau gan dderbyniad grant ychwanegol.

O ganlyniad i'r gorwariant eithriadol gan yr Adran Plant a Theuluoedd, mae'r Prif Weithredwr wedi comisiynu gwaith i egluro manylder y darlun yng ngofal Plant, er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r materion a rhaglen glir i ymateb. Mae'r gwaith yn cael ei arwain gan y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol.

**Argymhellir** fod yr Adran Plant a Theuluoedd yn derbyn cymorth ariannol un-tro o £3.705 miliwn i gyfyngu lefel y gorwariant sydd i'w gario ymlaen gan yr Adran i £100k, i'w cynorthwyo i symud ymlaen i wynebu her 2025/26.

**CYLLIDEB REFENIW 2024/25 - CYFRIFON TERFYNOL**

| **Gwasanaeth Busnes a Chomisiynu Gofal** | Cyllideb 2024/25 | Sefyllfa 2024/25 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2024/25** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2024/25** | Amcan Gor / (Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2024/25 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Cefnogaeth a Chomisiynu | 2,282 | 2,205 | (77) | | (77) | (83) |
| Incwm a Chyllid | 719 | 699 | (20) | | (20) | 21 |
| Gwasanaethau Ataliol | 264 | 243 | (21) | | (21) | (7) |
| Gwasanaethau Eraill | 166 | 269 | 103 | | 103 | 424 |
| Addasiad Cau Cyfrifon - peidio caniatáu cario tanwariant | | | | 15 | 15 | |
| **Cyfanswm Gwasanaeth Busnes a Chomisiynu Gofal** | **3,431** | **3,416** | **(15)** | **15** | **0** | **355** |

## Gwasanaeth Busnes a Chomisiynu Gofal

Y Gwasanaeth Busnes a Chomisiynu Gofal wedi ei symud o'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn ystod y flwyddyn i fod yn atebol i'r Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol, gan fod eu maes gwaith yn cwmpasu gofal oedolion a phlant.

**Cefnogaeth a Chomisiynu -** tanwariant ar nifer o benawdau'r gyllideb gan gynnwys costau staff, teithio, cyflenwadau a gwasanaethau a derbyniad incwm uwch, ond swyddi uwchlaw'r strwythur yn ystod y flwyddyn yn lleihau'r tanwariant a adroddir.

**Incwm a Chyllid** - tanwariant ar nifer o benawdau'r gyllideb gan gynnwys ar gyflogau a theithio.

**Gwasanaeth Ataliol -** derbyniad grant ychwanegol ar gyfer y gwasanaethau ataliol sydd yn golygu bod tanwariant ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

**Gwasanaethau Eraill** - yn cynnwys £85k o arbedion sydd heb eu gwireddu a gorwariant o £25k ar gynllun rhannu cartref sydd bellach wedi dod i ben.

**CYLLIDEB REFENIW 2024/25 - CYFRIFON TERFYNOL**

| **Adran Addysg** | Cyllideb 2024/25 | Sefyllfa 2024/25 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2024/25** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2024/25** | Amcan Gor / (Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2024/25 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Ysgolion Datganoledig | 96,862 | 96,862 | 0 | | 0 | 0 |
| Gwasanaethau Ansawdd Ysgolion | (1,629) | (1,672) | (43) | | (43) | (12) |
| Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol | | | | | | |
| Cludiant | 8,245 | 8,245 | 0 | | 0 | 0 |
| Gwasanaeth Atodol | 760 | 578 | (182) | | (182) | (62) |
| Eraill | (483) | (501) | (18) | | (18) | (35) |
| | 8,522 | 8,322 | (200) | 0 | (200) | (97) |
| Arweinyddiaeth a Rheolaeth | 2,588 | 2,621 | 33 | | 33 | (20) |
| Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad | 5,281 | 5,305 | 24 | | 24 | 15 |
| Gwasanaeth Ieuenctid | 879 | 874 | (5) | | (5) | (31) |
| Addasiad Cau Cyfrifon - peidio caniatáu cario tanwariant | | | 0 | 191 | 191 | 0 |
| **Cyfanswm Addysg** | **112,503** | **112,312** | **(191)** | **191** | **0** | **(145)** |

## Addysg

**Gwasanaeth Ansawdd Ysgolion -** cyfuniad o drosiant staff a chynnydd yn y defnydd o arian grant i gyllido gwariant craidd.

**Cludiant -** yn dilyn gorwariant o £1.5 miliwn yn ystod y flwyddyn ariannol 2023/24, bu i'r maes dderbyn dyraniad cyllideb ychwanegol eleni o £896k ar sail barhaol, ac £896k pellach am flwyddyn yn unig i gyfarch y pwysau ar y maes bysus a thacsis ysgolion yn dilyn ail-dendro cytundebau. Erbyn diwedd y flwyddyn gwelwyd tanwariant o £49k ar fysus ysgolion a £242k ar dacsis a threnau ysgolion, felly cwtogwyd y cyfraniad o'r bid un-tro o £290k fel bod y sefyllfa ariannol terfynol yn un cytbwys.

Mae'r maes cludiant yn parhau i fod yn destun adolygiad strategol i geisio rheoli'r cynnydd yn y gwariant, fel bod modd ceisio lleihau'r gorwariant a manteisio ar gyfleoedd effeithlonrwydd.

**Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol - Gwasanaeth Atodol -** incwm uwch a chostau yn is na'r rhagolygon ar gyfer arlwyaeth yn dilyn derbyniad grant ar gyfer cinio ysgol am ddim ysgolion cynradd. Gorwariant ar gostau staff oherwydd salwch yn faterion yn glanhau a gofalu ysgolion. Yr elfen gofal o'r clybiau brecwast hefyd yn parhau i orwario £93k o ganlyniad i gostau staff uwch a diffyg incwm.

**Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol - Eraill -** tanwariant ar nifer o gyllidebau amrywiol.

**Arweinyddiaeth a Rheolaeth -** costau uwch ar staffio ac ar amrywiol benawdau eraill.

**Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad -** darlun cymysg sydd yn gyfuniad o drosiant staff a derbyniad grant ond pwysau ar nifer o benawdau amrywiol eraill. Mae'r amgylchiadau yn ymwneud ag un ganolfan benodol yn parhau, ac yn gyfrifol am orwariant o £135k.

**Gwasanaeth Ieuenctid -** gwireddu cynllun arbedion 2025/26 yn ymwneud â staffio ymlaen llaw, derbyniad grant ychwanegol ond gwariant uwch.

**CYLLIDEB REFENIW 2024/25 - CYFRIFON TERFYNOL**

| **Adran Economi a Chymuned** | Cyllideb 2024/25 | Sefyllfa 2024/25 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2024/25** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2024/25** | Amcan Gor / (Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2024/25 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Rheolaeth | 394 | 125 | (269) | | (269) | (6) |
| Rhaglenni Adfywio a Chefnogi Cymunedau | 480 | 593 | 113 | | 113 | (10) |
| Morwrol a Pharciau Gwledig | (379) | (184) | 195 | | 195 | 181 |
| Cytundebau Byw'n Iach a Hamdden Eraill | 1,555 | 1,987 | 432 | (281) | 151 | 107 |
| Rhaglenni Datblygu Economaidd | (81) | (281) | (200) | | (200) | (105) |
| Marchnata a Digwyddiadau | 293 | 266 | (27) | | (27) | (10) |
| Llyfrgelloedd Gwynedd | 1,679 | 1,574 | (105) | | (105) | (48) |
| Amgueddfeydd, Celfyddydau ac Archifau Gwynedd | 841 | 988 | 147 | | 147 | 183 |
| Defnydd o Gronfa Tanwariant yr Adran | 5 | 0 | (5) | | (5) | (53) |
| **Cyfanswm Economi a Chymuned** | **4,787** | **5,068** | **281** | **(281)** | **0** | **239** |

## Economi a Chymuned

**Rheolaeth -** derbyniad grant yn arwain at danwariant ar y gyllideb graidd.

**Morwrol a Pharciau Gwledig -** effaith y tywydd gwael dros yr haf wedi amharu ar y lefelau incwm, sydd wedi golygu diffyg incwm yn y traethau ac wedi cyfrannu at leihad yn incwm Hafan, Pwllheli. Gwariant uwch a gwariant uwchlaw'r gyllideb hefyd yn faterion yn Hafan, Pwllheli ac yn Noc Fictoria, Caernarfon. Parciau Gwledig yn tanwario (£63k) o ganlyniad i dderbyniad incwm uwch gan gynnwys gan Netflix ym Mharc Padarn.

**Cytundebau Byw'n Iach a Hamdden Eraill -** trosglwyddwyd y ddarpariaeth hamdden i Gwmni Byw'n Iach yn Ebrill 2019, ond fod cyfrifoldeb am gostau rhedeg yr eiddo yn aros efo'r Cyngor. Dros y blynyddoedd diwethaf mae'r cwmni wedi derbyn cefnogaeth ariannol flynyddol gan y Cyngor oedd yn £550k yn 2022/23 a £308k yn 2023/24, oedd uwchlaw'r taliad cytundebol y contract ddarparu, i'w galluogi i gynnal eu gwasanaethau. Mae'r gefnogaeth ariannol yn parhau eleni a'r swm gofynnol wedi cynyddu i £281k erbyn diwedd y flwyddyn, o'r £201k oedd yn cael ei amcanu yn Adolygiad Tachwedd.

Ymhellach, gorwariant o £191k ar gyllideb yr Adran Economi a Chymuned i redeg adeiladau hamdden.

**Rhaglenni Datblygu Economaidd -** llwyddiant i ddenu grantiau ychwanegol i gyllido costau staff sydd yn rhyddhau cyllideb craidd y Cyngor.

**Marchnata a Digwyddiadau -** derbyniad grant ac arbediad swydd ymlaen llaw sydd yn rhan o gynlluniau arbedion 2025/26.

**Llyfrgelloedd Gwynedd -** y gwasanaeth yn cael ei ailstrwythuro a swydd wag sydd yn rhan o gynlluniau arbedion 2025/26 yn cyfrannu at y tanwariant eleni. Derbyniad grant ac incwm rhent yn uwch ynghyd â llai o wariant ar nifer o benawdau'r gyllideb.

**Amgueddfeydd, Celfyddydau ac Archifau Gwynedd -** costau staff uwchlaw'r gyllideb a diffyg incwm yn faterion yn Neuadd Dwyfor £146k ac yn Storiel £35k. Derbyniad incwm a grantiau mewn meysydd eraill wedi cynorthwyo i leddfu rhywfaint ar y gorwariant.

Er mwyn lleihau y gorwariant a adroddir mae'r adran yn defnyddio £5k o gronfa tanwariant adrannol.

**Argymhellir** i'r Cabinet gymeradwyo cymorth ariannol ychwanegol gwerth £281k i Gwmni Byw'n Iach.

**CYLLIDEB REFENIW 2024/25 - CYFRIFON TERFYNOL**

| **Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC (yn cynnwys Cefnffyrdd)** | Cyllideb 2024/25 | Sefyllfa 2024/25 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2024/25** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2024/25** | Amcan Gor / (Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2024/25 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Gwasanaethau:** | | | | | | |
| Priffyrdd (cynnwys Cefnffyrdd) | 11,546 | 11,787 | 241 | | 241 | 228 |
| Peirianneg | 620 | 595 | (25) | | (25) | (8) |
| Bwrdeistrefol | 5,378 | 6,052 | 674 | | 674 | 489 |
| Ymgynghoriaeth Gwynedd | 48 | (186) | (234) | | (234) | (10) |
| Addasiad Cau Cyfrifon 2024/25 | | | 0 | (556) | (556) | 0 |
| **Cyfanswm Priffyrdd, Peirianneg ac YGC** | **17,592** | **18,248** | **656** | **(556)** | **100** | **699** |

## Priffyrdd, Peirianneg ac YGC (gan gynnwys Cefnffyrdd)

**Gwasanaethau Priffyrdd** - sefyllfa incwm gan asiantaethau allanol wedi gwella, ond pwysau ar gyllidebau unedau gwaith Priffyrdd. Yn dilyn y stormydd dros y gaeaf wynebwyd costau ychwanegol ond ni dderbyniwyd unrhyw gymorth ariannol tuag at y costau perthnasol. Mae tanwariant ar gostau staff yn lleihau'r gorwariant a adroddir.

**Gwasanaethau Peirianneg** - tanwariant ar amrywiol benawdau gan gynnwys ar gyflogau ac ar y gyllideb gweithiau allanol.

**Gwasanaethau Bwrdeistrefol** - darlun cymysg sydd yn gyfuniad o ffactorau sydd yn cynnwys pwysau ychwanegol pellach ar gyllidebau staff glanhau strydoedd a glanhau toiledau cyhoeddus. Colledion incwm yn faterion yn cynnal tiroedd a thoiledau cyhoeddus. Gwelwyd cynnydd yn y gwariant ers Adolygiad Tachwedd sydd yn gwaethygu'r sefyllfa ariannol. Incwm uwch gan y gwasanaethau profedigaeth ynghyd â thanwariant staffio mewn nifer o feysydd yn cynorthwyo'r sefyllfa ariannol.

**Ymgynghoriaeth Gwynedd** - gwelliant sylweddol yn yr incwm gan sefydliadau allanol megis cynghorau eraill a Llywodraeth Cymru yn y maes ffyrdd a pheirianneg ynghyd â swyddi gwag a throsiant staff.

**Argymhellir** fod yr Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC yn derbyn cymorth ariannol un-tro o £556k i gyfyngu lefel y gorwariant sydd i'w gario ymlaen gan yr Adran i £100k, i'w cynorthwyo i symud ymlaen i wynebu her 2025/26.

**CYLLIDEB REFENIW 2024/25 - CYFRIFON TERFYNOL**

| **Adran Amgylchedd** | Cyllideb 2024/25 | Sefyllfa 2024/25 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2024/25** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2024/25** | Amcan Gor / (Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2024/25 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Rheolaeth yr Adran | 714 | 926 | 212 | | 212 | 213 |
| Gwasanaeth Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu | 474 | 663 | 189 | | 189 | 232 |
| Gwasanaethau Gofal Stryd a Thrafnidiaeth | | | | | | |
| Rheolaeth Rhwydwaith (Trafnidiaeth) | 231 | (316) | (547) | | (547) | (468) |
| Parcio a Gorfodaeth Parcio | (2,674) | (1,921) | 753 | | 753 | 604 |
| Cludiant Integredig | 2,482 | 2,414 | (68) | | (68) | (36) |
| | 39 | 177 | 138 | 0 | 138 | 100 |
| Cefn Gwlad a Mynediad | 702 | 695 | (7) | | (7) | (23) |
| Gwarchod y Cyhoedd | 2,151 | 1,868 | (283) | | (283) | (219) |
| Gwastraff | 13,733 | 14,833 | 1,100 | | 1,100 | 667 |
| **Cyfanswm Amgylchedd** | **17,813** | **19,162** | **1,349** | **0** | **1,349** | **970** |
| Defnydd o Gronfa Adennill Enillion Cyfrannol Parc Adfer | | | | **(1,100)** | **(1,100)** | |
| Addasiad Cau Cyfrifon 2024/25 | | | | **(149)** | **(149)** | |
| **Cyfanswm Addasedig Amgylchedd** | | | | **(1,249)** | **100** | |

## Amgylchedd

**Rheolaeth yr Adran -** oediad mewn gwireddu gwerth £200k o gynlluniau arbedion ynghyd â gorwariant ar gostau staff a theithio.

**Gwasanaeth Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu -** diffyg incwm yn faterion yn Rheolaeth Adeiladu, Rheolaeth Datblygu a Phridiannau Tir, ond sydd yn cael ei leihau gan danwariant ar gostau staff.

**Gwasanaethau Gofal Stryd a Thrafnidiaeth**
**Rheolaeth Rhwydwaith (Trafnidiaeth) -** yn rhagori ymhellach ar yr incwm ffioedd gwaith stryd, ynghyd â swyddi gweigion a thanwariant ar nifer o benawdau'r gyllideb.

**Parcio a Gorfodaeth Parcio -** y diffyg incwm parcio wedi cynyddu i £826k ond ei effaith yn cael ei leihau gan danwariant ar nifer o gyllidebau eraill.

**Cludiant Integredig -** dyrannwyd cyllideb ychwanegol un-tro o £400k ar gyfer 2024/25 yn dilyn pwysau ychwanegol ail-dendro cytundebau bysus cyhoeddus. Derbyniad grant uwch gan Trafnidiaeth Cymru hefyd yn cynorthwyo i leddfu'r sefyllfa. Awgrymir y dylid parhau efo'r adolygiad i'r ddarpariaeth cludiant.

**Gwarchod y Cyhoedd -** swyddi gwag a llai o wariant ar nifer o benawdau'r gyllideb gan gynnwys samplau bwyd a gwasanaethau a chyflenwadau. Incwm i lawr ar gyfer y maes trwyddedu, marchnadoedd a trwyddedu tacsis tra fod incwm iechyd a diogelwch yn uwch a derbyniad grant ac incwm uwch yn safonau masnach.

**Gwastraff -** nifer o faterion yn gyfrifol am y gorwariant o £1.1 miliwn, gwaith o gyflwyno'r newidiadau i'r maes yn ystod y flwyddyn, ond y gorwariant yn bennaf ar gasglu gwastraff ac ailgylchu. Gorwariant hefyd yn amlwg ar gostau rhedeg y canolfannau ailgylchu. Mae staff uwchlaw'r sefydliad, costau cyflogaeth a lefelau salwch a goramser yn broblemus, ond y mater yn derbyn sylw. Mae yna nifer o gynlluniau arbedion yn llithro sydd hefyd yn rhan o'r darlun.

**Adennill Enillion Cyfrannol Parc Adfer -** Arbediad un-tro i'r holl gynghorau o enillion ail-ariannu Parc Adfer. Mae'r cyfraniad wedi ei roi mewn cronfa, gyda'r galwad cyntaf ohono i'w ddefnyddio i gyllido gorwariant yn y maes gwastraff.

**Argymhellir** yn gyntaf, defnyddio (£1.1 miliwn) i gyllido'r gorwariant yn y maes Gwastraff o gronfa Adennill Enillion Cyfrannol Parc Adfer. Yn ogystal, bod yr Adran Amgylchedd yn derbyn cymorth ariannol un-tro o £149k i gyfyngu lefel y gorwariant sydd i'w gario ymlaen gan yr Adran i £100k, i'w cynorthwyo i symud ymlaen i wynebu her 2025/26.

**CYLLIDEB REFENIW 2024/25 - CYFRIFON TERFYNOL**

| **Adran Tai ac Eiddo** | Cyllideb 2024/25 | Sefyllfa 2024/25 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2024/25** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2024/25** | Amcan Gor / (Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2024/25 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Rheolaeth | 540 | 505 | (35) | | (35) | (9) |
| Gwasanaethau Tai | | | | | | |
| Digartrefedd | 5,825 | 5,791 | (34) | | (34) | (269) |
| Tai Sector Breifat | 399 | 414 | 15 | | 15 | (50) |
| Eraill | 266 | 257 | (9) | | (9) | (11) |
| | 6,490 | 6,462 | (28) | 0 | (28) | (330) |
| Gwasanaethau Eiddo | | | | | | |
| Eiddo | 2,426 | 2,467 | 41 | | 41 | 20 |
| Gofalu, Arlwyo a Glanhau | (3) | 16 | 19 | | 19 | 16 |
| | 2,423 | 2,483 | 60 | 0 | 60 | 36 |
| Addasiad Cau Cyfrifon 2024/25 | | | 0 | 3 | 3 | 0 |
| **Cyfanswm Tai ac Eiddo** | **9,453** | **9,450** | **(3)** | **3** | **0** | **(303)** |
| | | | | | | |
| Cynnal a Chadw Corfforaethol - llithriad | | | (1,223) | | | |
| Trosglwyddo i Gronfa Cynnal a Chadw ar ddiwedd y flwyddyn | | | **1,223** | | | |
| **Cynnal a Chadw Corfforaethol Net** | | | **0** | | | |

## Tai ac Eiddo

**Rheolaeth -** tanwariant ar wasanaethau a chyflenwadau ac ar gostau staff.

**Digartrefedd -** y tueddiad o bwysau sylweddol ar y gwasanaeth llety argyfwng yn parhau, gyda rhagolygon fod gwariant ar y maes am fod yn £6 miliwn eleni, hyn i gymharu â £6.8 miliwn y llynedd. Yn dilyn ystyried cyllideb ychwanegol i lety argyfwng sef £3 miliwn sydd wedi ei ddyrannu o bremiwm treth cyngor ac hefyd cyllideb un-tro ychwanegol a ddyrannwyd fel rhan o'r drefn bidiau ar gyfer 2024/25 i gynorthwyo gyda'r pwysau ychwanegol. Ymhellach i hyn, derbyniwyd grant ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar ddiwedd y flwyddyn ariannol i gyfarch y pwysau ychwanegol yn y maes.

**Tai Sector Breifat -** diffyg yn yr incwm grant cyfleusterau i'r anabl ac ar drwyddedau tai aml-ddeiliaid ond sydd yn cael ei leihau gan drosiant staff a thanwariant ar gyflenwadau a gwasanaethau.

**Gwasanaethau Tai, Eraill -** derbyniad grant a thanwariant ar gostau staff sydd yn cael ei leihau gan ddiffyg yn y cyfraniadau gan y cymdeithasau tai.

**Gwasanaethau Eiddo -** pwysau ar y gyllideb gwasanaethau a chyflenwadau yn Eiddo ac ar gostau cerbydau yn Difa Pla. Diffyg incwm hefyd yn broblem yn Difa Pla, ond fod derbyniad incwm un tro yn Eiddo yn lleihau'r gorwariant a adroddir.

**Gofalu, Arlwyo a Glanhau -** gorwariant ar gostau staff sydd yn cael ei leihau gan dderbyniad incwm uwch na'r targed.

**Cynnal a Chadw Corfforaethol -** bu i'r maes Addysg dderbyn grant cynnal a chadw gan y Llywodraeth gwerth £1.1 miliwn yn Gorffennaf 2024 ac yna £0.7 miliwn pellach yn Ionawr, sydd wedi golygu bod llithriad o £1.2 miliwn ar gyllideb craidd cynnal a chadw, sydd wedi ei drosglwyddo i gronfa ar ddiwedd y flwyddyn ar gyfer dibenion cynnal a chadw.

**CYLLIDEB REFENIW 2024/25 - CYFRIFON TERFYNOL**

| **Adrannau Canolog** | Cyllideb 2024/25 | Sefyllfa 2024/25 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2024/25** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2024/25** | Amcan Gor / (Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2024/25 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol | 2,706 | 2,658 | (48) | 48 | 0 | (61) |
| Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth) | 8,487 | 8,482 | (5) | 5 | 0 | (4) |
| Gwasanaethau Corfforaethol | 8,284 | 8,242 | (42) | 42 | 0 | (33) |
| **Cyfanswm Adrannau Canolog** | **19,477** | **19,382** | **(95)** | **95** | **0** | **(98)** |

## Adrannau Canolog

**Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol -** rhagori ar incwm yn dilyn derbyniad grantiau ac incwm yn hwyr yn y flwyddyn, ynghyd ag ymgais i gadw swyddi'n wag mewn gwahanol feysydd. Ariannwyd costau un-tro ychwanegol hefyd. Yn groes i'r rhagolygon bu i elfen Gwynedd o gostau'r Crwner fod o fewn y gyllideb erbyn diwedd y flwyddyn.

**Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth) -** trosiant staff, sydd yn cael ei leihau gan gostau uwch meddalwedd yn yr Unedau Trethi, Budd-daliadau, Incwm a Thaliadau. Gwelwyd dderbyniad grantiau ychwanegol mewn nifer o feysydd erbyn diwedd y flwyddyn gan gynnwys yn Archwilio Mewnol a Chyfrifeg, ond fod gwariant un tro ar Ymgynghoriad CIPFA yn lleihau'r tanwariant a adroddir.

**Gwasanaethau Corfforaethol -** cyfuniad o resymau yn gyfrifol am y sefyllfa gan gynnwys trosiant staff ac ymgais i gadw swyddi'n wag yn ystod y flwyddyn. Mae gwireddu arbedion 2025/26 ymlaen llaw hefyd yn amlwg ac yn cyfrannu at y tanwariant. Y Gwasanaeth Ymgynghorol Adnoddau Dynol, Iechyd a Diogelwch, Cyfieithu a'r Argraffdy wedi rhagori ar incwm ond diffyg yn incwm Cofrestru. Bu i Gyswllt Cwsmer dderbyn grant ychwanegol ar ddiwedd y flwyddyn sydd wedi trawsnewid eu sefyllfa o'r rhagolygon. Dyrannwyd bid parhaol ar gyfer 2024/25 i gyfarch y pwysau ychwanegol ar y gyllideb cwnsela a ffisiotherapi ac felly hynny wedi diddymu'r gorwariant cysylltiedig.

**CYLLIDEB REFENIW 2024/25 - CYFRIFON TERFYNOL**

| **Corfforaethol (Dim ond yn adlewyrchu y gwahaniaethau)** | Cyllideb 2024/25 | Sefyllfa 2024/25 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2024/25** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2024/25** | Amcan Gor / (Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2024/25 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Treth Cyngor | * | * | (3,057) | 3,057 | 0 | 0 |
| Gostyngiadau Treth Cyngor | * | * | 43 | (43) | 0 | 0 |
| Costau Cyfalaf | * | * | (221) | 221 | 0 | 0 |
| Grant y Llywodraeth - Cefnogi Pwysau Llywodraeth Leol | * | * | (1,572) | 1,572 | 0 | 0 |
| Darpariaeth Arbedion | * | * | (719) | 719 | 0 | 0 |
| Dychwelyd Cyllidebau / Bidiau | * | * | (402) | 402 | 0 | 0 |
| Eraill | * | * | (764) | 764 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Corfforaethol** | * | * | **(6,692)** | **6,692** | **0** | **0** |

## Corfforaethol

**Treth Cyngor -** cynnyrch treth ychwanegol o ganlyniad i ragdybiaethau darbodus wrth osod cyllideb 2024/25. Er y gwelwyd leihad o 239 yn y niferoedd o ail gartrefi'r premiwm yn ystod 2023/24, bu cynnydd sylweddol o 387 yn y nifer yn 2024/25, gyda 100 ohonynt ers Adolygiad Tachwedd. Ymhellach i hyn, gwelwyd 692 o eiddo yn trosglwyddo o drethi annomestig i dreth cyngor yn ystod y flwyddyn (381 yn 2023/24).Ond, yn groes i'r darlun yma, bu i Swyddfa'r Prisiwr ganiatáu 189 eiddo i drosglwyddo o dreth cyngor i drethi annomestig, sydd yn is na mewn blynyddoedd blaenorol (193 yn 2023/24, 452 yn 2022/23, 469 yn 2021/22, 506 yn 2020/21). Yn 2024/25 mae £6 miliwn o bremiwm treth cyngor wedi ei neilltuo ar gyfer y Strategaeth Dai a £3 miliwn pellach ar gyfer y maes Digartrefedd.

**Gostyngiadau Treth Cyngor -** yn dilyn ymgyrch i dargedu grwpiau gwahanol i gynyddu niferoedd y ceisiadau, gwelwyd cynnydd yn y niferoedd sydd yn hawlio'r gostyngiad yng Ngwynedd eleni o'i gymharu â'r tueddiad mewn blynyddoedd blaenorol.

**Costau Cyfalaf -** effaith y polisi rheolaeth trysorlys presennol wedi golygu y bu modd osgoi benthyca yn allanol, felly yn osgoi'r costau cysylltiedig.

**Grant y Llywodraeth -** dyraniad grant ychwanegol gan y Llywodraeth ar ddiwedd Mawrth 2025 tuag at y galw ychwanegol, costau cynyddol a phwysau cyffredinol sydd yn wynebu Llywodraeth Leol.

**Darpariaeth Arbedion -** yn dilyn anallu rhai adrannau i wireddu arbedion mewn rhai meysydd, mae darpariaeth gorfforaethol wedi ei wneud fel ei fod ar gael i ddileu arbedion problemus a phontio gwireddu arbedion.

**Dychwelyd Cyllidebau / Bidiau -** y pwysau ar rai cyllidebau a bidiau ddim cymaint a'r hyn a ddarparwyd yn y gyllideb.

**Eraill -** ni fu'r galw ar y ddarpariaeth mor uchel a'r hyn a ragwelwyd wrth osod y gyllideb.

**Argymhellir** y dylid cynorthwyo'r Adrannau sydd yn gorwario yn 2024/25 gan eu cyllido o'r ffynonellau canlynol:

- yn gyntaf, defnyddio (£304k) gan y chwe adran sydd yn tanwario
- defnyddio (£1.1 miliwn) o'r gronfa Adennill Enillion Cyfrannol Parc Adfer i gyllido gorwariant yn y maes Gwastraff
- cyllido'r £281k gorwariant gan Gwmni Byw'n Iach
- defnyddio (£5.144 miliwn) o'r tanwariant ar gyllidebau Corfforaethol
- fod y gweddill y tanwariant Corfforaethol sef (£1.548 miliwn) yn cael ei drosglwyddo i'r Gronfa Trawsffurfio, i'w ddefnyddio ar gyfer blaenoriaethau'r Cyngor.

- yn dilyn ymarferiad cynaeafu cronfeydd a fanylir yn **Atodiad 3**,
- fod (£1.275 miliwn) yn cael ei drosglwyddo i'r Gronfa Trawsffurfio i'w ddefnyddio ar gyfer blaenoriaethau y Cyngor a chyllido bidiau un tro i'r dyfodol
- fod gwerth (£375k) o gynlluniau hanesyddol neu heb ymrwymiadau yn y Gronfa Trawsffurfio yn cael eu dad-ymrwymo
- fod (£2.5 miliwn) yn cael ei symud o gronfa Cynorthwyo'r Strategaeth Ariannol i'r Gronfa Trawsffurfio.